

www.cyngorllanelltyd.cymru

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd ar
Zoom
Nos Fawrth, Mehefin 9, 2020 am 7:30yh o'r gloch.**

Presennol: Cynghorwyr: Simon Evans (Cadeirydd), Carwyn Evans, Llinos Williams, Geraint Rowlands, Elfed ap Gomer a John Hughes. Hefyd Peredur Jenkins, Henry M. Edwards.

1. Ymddiheuriadau:

Gareth Ellis.

2. Dewis Swyddogion

Cadeirydd: Simon Evans.

Is Gadeirydd: Carwyn Evans

Cynrychiolwyr ar y canlynol:

Canolfan y Pentref Llanelltyd (1): Llinos Williams

Neuadd Bentref Bontddu (1): Janet Edwards

Materion Mynwent Llanelltyd (2): Geraint Rowlands a John Hughes.

Un Llais Cymru (2): Elfed ap Gomer, Gareth Ellis

3. Datgan diddordeb:

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mawrth 10, 2020

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cyfarfod Mawrth 10, 2020

Eitem 8.ch. Llythyr (12/3/2020) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bod y Seremoni wedi ei gohirio oherwydd y coronafeirws.

6. Materion Ariannol

a. Llythyr (30/1/2020) oddi wrth Swyddog Cymhorthydd Refeniw Trethi Annomestig, Cyngor Gwynedd yn ateb ein llythyr i Eitem 5.e. Cofnodion Ionawr 14, 2020.

Maent yn rhoi gwybod mae'r bil dal yn bodoli ar gyfer y toiledau er bod yr adeilad wedi ei gau. Maent yn rhoi gwybod hefyd mi fydd angen cysylltu â'r Swyddfa Brisió (Valuation Office Agency) i wneud cais i dynnu'r toiledau allan o'r rhestr ac i dynnu'r asesiad Trethi Annomestig oddi ar y toiledau.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION MEHEFIN 9, 2020

Mi fydd angen i ni gysylltu â'r swyddfa Brisio drwy 03000 505505 neu ratingwales@voa.gsi.gov.uk. Bydd y Swyddog yn rhoi ein cyfrif ar "hold" hyd at 31.05.2020.

Anfonwyd copi o'r llythyr i'r aelodau.

b. Bil (16/3/2020) Treth Annomestig Genedlaethol ar gyfer 2020/21 tuag at Public Conveniencs Bontddu oddi wrth Cyngor Gwynedd. Mae'n cael ei dalu trwy Direct Debit. Taliad 9/04/2020 = £27.43, ac yna £24.00 y mis (am 9 mis). Cyfanswm yn £243.43 (llynedd y cyfanswm oedd £239.33).

c. Llythyr (20/3/2020) oddi wrth E.W. Owen a'i Chwmni yn cynnwys:

i. Copi o P60 am y flwyddyn yn diweddu 5/4/2020, a chopi o P30 yn rhoi taliadau gwnaethpwyd i HMRC.

ii. Bil am £192.00 am gwblhau PAYE am y flwyddyn yn gorffen 5/4/2020 ac am gyflwyno cyflog misol i HMRC ar-lein i gydymffurfio â RTI a pharatoi Tystysgrif Diwedd y Flwyddyn P60.

Talwyd y bil 5/5/2020.

iii. Taliad misol i'r Clerc o Ebrill - £99.64
Taliad misol i'r Cyllid a Thollau - £24.80.

$12(\pounds99.64 + \pounds24.80) = \pounds1,493.28$ y flwyddyn (gweler Eitem 5.c. Cofnodion Ionawr 8, 2019).

d. Llythyr (8/4/2020) oddi wrth Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd yn diolch am ein rhodd o £50.

dd. Llythyr (8/4/2020) oddi wrth ein cwmni yswiriant Zurich yn rhoi gwybod mae angen adnewyddu ein polisi ar 1/6/2020. Mae ein 'Long Term Agreement' wedi dod i ben.

Maent yn cynnig: 1 flwyddyn am £649.18, 3 blynedd am £638.41 a 5 blynedd am £627.65.

Ein taliadau gwnaethpwyd iddynt gyda 'Long Term Agreement' am 3 blynedd oedd:
2020 / 2019 - £622.89
2019 / 2018 - £618.26
2018 / 2017 - £613.78
2017 / 2016 - £1,021.47 gyda AON UK.

Anfonwyd y manylion i'r aelodau am eu dewis.

Rhodddwyd gwybod i Zurich (14/4/2020) ein bod yn derbyn y dewis 5 mlynedd o £627.65.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION MEHEFIN 9, 2020

Derbyniwyd bil am £627.65 oddi wrth Zurich ac angen ei dalu cyn 1/6/2020.

Talwyd y bil 5/5/2020.

e. Llythyr (10/4/2020) oddi wrth Tŷ Gobaith, Conwy. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

f. Llythyr (27/4/2020) oddi wrth Uned Taliadau, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd taliad praesept o £3,750 yn ein cyfrif ar 30/4/2020. Taliad am hanner blwyddyn.

ff. Llythyr (5/5/2020) oddi wrth Llywodraeth Cymru, trwy law Un Llais Cymru. Maent angen gwybod taliadau gwnaethpwyd i'r aelodau yn 2019-2020.

Cafodd Elfed ap Gomer daliad. Rhoddwyd gwybod iddynt (7/5/2020).

g. Llythyr (12/5/2020 oddi wrth Tenovus Cancer Care. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

h. Llythyr (12/5/2020) oddi wrth Tarian Cymru (grŵp sefydlwyd i godi arian ar gyfer offer amddiffyn PPE) i weithwyr ieched Cymru. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd rhoi £100.

i. Anfonwyd (4/6/2020) adroddiad cyfrifon 2019-2020 y cyngor i'r aelodau.

Penderfynwyd derbyn yr adroddiad.

j. Balans yn y banc ar 29 Mawrth 2020: £8,806.28.

l. Balans yn y banc ar 29 Ebrill 2020: £12,431.84 (yn cynnwys Praesept).

ll. Balans yn y banc ar 29 Mai 2020: £11,487.75.

7. Archwilio

a. Llythyr (1/4/2020) oddi wrth BDO gyda manylion Hysbysiad archwilio i'r flwyddyn ariannol sy'n diweddu ar 31 Mawrth 2020. Mae angen:

1. Rhaid i'r Ffurflen Flynyddol gael ei hardystio gan y Swyddog Ariannol a'i gymeradwyo gan y Cyngor erbyn Mehefin 30, 2020.

2. Rhaid anfon y Ffurflen Flynyddol wedi'i llenwi a'r holl wybodaeth erbyn Gorffennaf 10.

3. Rhaid arddangos yr hysbysiad archwilio (amgau) mewn lle amlwg yn yr ardal, ac ar wefan y Cyngor, cyn Mehefin 16, 2020. Mae angen ffotograff o'r hysbysiad.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION MEHEFIN 9, 2020

Gwybodaeth ychwanegol:

Cysoniad banc ar Mawrth 31 2020.

Esboniad am amrywiannau rhwng cyfrifon 2018-19 a 2019-20 yn Ffurflen Flynyddol 2019-20.

Os mae'n berthnasol, esboniad ar unrhyw wahaniaethau rhwng cyfrifon 2018-19 a nodwyd ar Ffurflen Flynyddol 2019-20 a chyfrifon 2018-19 a nodwyd ar ffurflen flynyddol 2018-19.

Ffotograff yn dangos bod yr hysbysiad archwilio wedi'i arddangos mewn lle amlwg.

Tystiolaeth bod y Cyngor wedi mynd i'r afael â'r holl faterion archwilio a nodwyd ac a grybwyllwyd i'r Cyngor ar ddiwedd archwiliad 2017-18.

Rhestr o holl gyfarfodydd y Cyngor a gynhaliwyd yn 2019-20.

Cyfeiriad gwefan y Cyngor – i gadarnhau cyhoeddi cofnodion.

b. Llythyr (14/5/2020) oddi wrth Archwilio Cymru yn rhoi gwybod mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cael ei gyfeirio fel wrth Archwilio Cymru . Amgáu mae:

Diweddariad Archwilio.

Preparation and Publication of Statutory Financial Accounts for 2019-20.

Question and Answer Brief – The Local Authorities (Coronavirus) (Meetings) (Wales) Regulations 2020.

Hysbysiadau Archwilio sy'n cael eu hychwanegu gan Reoliadau.

Hysbysiad diwygiedig o archwiliad 2019-20.

Diweddariad Archwilio 23-3-2020:

COVID-19 a'r archwiliad o gyfrifon cynghorau cymuned a thref.

Ffurflen Flynyddol Cynghorau Cymuned a Chynghorau Tref yng Nghymru ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben ar 31 Mawrth 2020.

c. Mae angen y Cadeirydd arwyddo'r Ffurflen Flynyddol.

Cytunodd yr Is-gadeirydd arwyddo'r Ffurflen Flynyddol ac archwilwyd y ffurflen gan yr aelodau.

ch. Anfonwyd llythyr (20/3/2020) i Uned Archwilio Fewnol, Cyngor Gwynedd yn gofyn iddynt barhau fod ein Harchwilydd Mewnol i archwilio ein cyfrifon 2019 / 2020. Derbyniwyd ateb (23/3/2020) yn rhoi gwybod maent yn hapus i wneud y gwaith.

Llythyr (29/5/2020) oddi wrth yr Uned Archwilio Fewnol yn amgáu copi o 'Rhestr wirio cynghorau cymuned/tref/dinas' at archwiliad mewnol. Gyda swyddfa Penarlag ar gau bydd angen gwneud trefniadau i anfon y dogfenau i Gaernarfon.

8. Mynwent Llanelltyd

a. Llythyr (16/3/2020) oddi wrth Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu Masnachol, Cyngor Gwynedd yn ymwneud â Chasglu Gwastraff Masnachol 2020/2021 o'r fynwent. Os am wasanaeth fel y llynedd, bydd y casgliad yn wythnosol gydag un bin olwyn 240ltr drwy'r flwyddyn, y ffi i'w dalu yw £366.00 (y swm llynedd oedd £348.00). Bydd anfoneb am y swm yn cael ei anfon ymhellach ymlaen.

Talwyd y bil (5/5/2020).

Er bod y banc yn derbyn un llofnod ar siec awgrymwyd cael llofnod arall.

b. Llythyr (27/3/2020) oddi wrth Un Llais Cymru yn cynwys copi o 'National Association of Memorial Masons (NAMM) Protocol' i seiri meini yn ystod argyfwng Covid 19.

c. Llythyr (7/4/2020) oddi wrth Un Llais Cymru yn angáu copi o 'Reoliadau Diogel Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020'. Mae'r rheoliadau newydd yn egluro'r trefniadau ar gyfer angladdau ac amlosgiadau; ac maent yn cadarnhau y gall mynwentydd aros ar ogor ond fod rhaid parchu cadw pellter cymdeithasol, yn ogystal â'r angen i gymryd pob cam rhesymol i gadw at y rheol 2 fetr mewn claddedigaethau.

9. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Ceisiadau cynllunio

i. NP5/65/355A. Codi adeilad amaethyddol. Tyddyn Du, Bontddu.

Rhodddwyd gwybod i'r Parc (18/3/2020) bod yr adeilad wedi ei adeiladu.

ii. NP5/65/364. Ymgyrch rhychu arwyneb y tir at bwrpasau archwilio i anghysondebau aur-yn-y-pridd drwy fapio a samplu daeareg a phridd. Tir ger Gesail-Gwm Fawr, Taicynhaeaf, Bontddu.

Anfonwyd ymateb Elfed ap Gomer i'r cais (26/5/2020). Ei sylw oedd, yn fyr: Mae perchennog y tir, Robin Meredith, yn ymwybodol o'r cais ond ddim y perchnogion tir sy'n ffinio â'r eiddo.

Mae'n amheus os mae'r Parc wedi rhoi rhybuddion arferol i fyny i ddynodi'r cais, a rhoi gwybod i berchnogion 'absennol' gyda 'lockdown' Covid-19 ar fod.

Beth fydd y canlyniad os bydd aur ar gael: mynediad, trafndiaeth, sŵn, llygredd. Ail-gyflwyno'r cais wedi i bryderon pobl yr ardal gael sylw.

Derbyniwyd ateb (28/5/2020) oddi wrth y Parc ac maent yn rhoi gwybod: Maent wedi derbyn sylw berchennog eiddo Ceseilgwm Mawr ac yn cydnabod y pryder am ansawdd dŵr i'r eiddo.

Bydd rhybudd yn cael ei arddangos ar y safle ac asesu'r cais yn ei leoliad yn y dyddiau nesaf.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION MEHEFIN 9, 2020

Mae'r cais cynllunio yn rhan o waith treialu sydd yn angenrheidiol i'r ddatblygwyr.

Pe byddai cais cynllunio yn cael ei gyflwyno i ail ddechrau mwyngloddio, fe fydd ystyriaeth gynllunio lawn yn cael ei wneud. Bydd hyn yn cynwys i'r ymgeiswyr cael perthynas adeiladol gyda'r Cyngor Cymuned a'r gymdogaeth leol.

b. Llythyr (25/3/2020) oddi wrth Llinos Williams yn rhoi gwybod bod ymwelwyr wedi parcio ceir tu allan i'r lle parcio y Parc sydd wrth Bont Llanelltyd. Mae bws mini yno hefyd.

Rhodddwyd gwybod (25/3/2020) i'r Parc iddynt gadw llygad ar yr ymwelwyr sy'n cerdded ar hyd y bont.

10. Gohebiaeth

a. Llythyr (26/2/2020) oddi wrth Un Llais Cymru gyda manylion o sesiynau hyfforddi yn Gymraeg cynhelir yn Canolfan Hen Blas, Stryd Fawr, Y Bala. Y sesiynau bydd yn cael eu rhoi a'u dyddiad: Cod Ymddygiad (6/5/2020); Sgiliau Cadeirio (3/6/2020); Y Cyngor fel Cyflogydd (1/7/2020). Cynhelir y sesiynau rhwng 6.30yh a 9:00yh. Cost hyfforddant yw £40.

b. Wedi i fi wneud ymoliadau (9/3/2020) gyda Cyngor Gwynedd ar ran Mr Meurig Ashton i wneud gwaith ar y llwybr Golff, cafwyd wybod gan Swyddog Llwybrau bod y Cyngor am fwriadu gwneud rhywfaint o waith ar y llwybr. Rhodddwyd gwybod i Mr Ashton sydd ddim angen iddo wneud gwaith ar y llwybr. Gweler Cofnodion Chwefror 11, 2020 Eitem 10.b.

Fel tir feddianwr, cafodd Geraint Rowlands gwybod am y bwriad o wella'r llwybr.

c. Galwad ffôn (21/3/2020) oddi wrth Mr Glyn Williams, gofalwr Neuadd Llanelltyd, yn rhoi gwybod bydd y Neuadd ar gau o hyn ymlaen.

Rhodddwyd gwybod i'r aelodau.

d. Llythyr (22/3/2020) oddi wrth Gethin Williams gyda chopi o lythyr anfonodd Arweinydd Cyngor Gwynedd i fusnesau twristiaeth y sir ynglŷn â Coronafeirws. Yn y llythyr mae'n dweud wrth y busnesau i gau eu parc / gwersyll / llety gwyliau ar unwaith oherwydd peryglon y Coronafeirws.

dd. Llythyr (24/3/2020) oddi wrth Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae holl doiledau cyhoeddus a meysydd chwarae'r Cyngor wedi cau am gyfnod amhenodol oherwydd Coronafeirws.

Anfonwyd copi o'r llythyr i'r aelodau.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION MEHEFIN 9, 2020

e. Llythyr (3/4/2020) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am Rybuddion Cyhoeddus i wahardd trafndiaeth dros dro gan gau encilfa sydd ar ochr orllewinol i Bontddu ac ar ffordd yr A496. Daw'r gorchymyn i rym ar y 27ain o Ebrill, 2020 ac y pery am 12 mis. Ar hyn o bryd disgwylir gellir cwblhau'r gwaith o fewn tua 12 mis i gael mynediad i Goedwig Bontddu i dorri coed.

Anfonwyd y wybodaeth ymlaen i'r aelodau.

Llythyr (22/4/2020) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am Rybuddion Cyhoeddus i wahardd trafndiaeth dros dro gan gau encilfa sydd ar ochr orllewinol i Bontddu ac ar ffordd yr A496. Daw'r gorchymyn i rym ar y 27ain o Ebrill, 2020 ac y pery am 12 mis. Ar hyn o bryd disgwylir gellir cwblhau'r gwaith o fewn tua 12 mis i gael mynediad i Goedwig Bontddu i dorri coed.

f. Llythyr (16/4/2020) oddi wrth ITV Cymru ynglŷn â rhaglen Y Byd ar Bedwar. Meant angen cysylltu â phobol i wneud rhaglen gyda rheini sydd wedi cael eu dal gan sgamiau sydd wedi cynyddu o achos y coronafeirws.

Anfonwyd copi o'r llythyr i'r aelodau.

g. Llythyr (22/4/2020) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybodaeth ar ganllawiau ar gyfer aelod cynghorau ar sut i gael y gorau allan o gyfarfodydd a gynhelir o bell oherwydd haint Covid 19. Gall Cynghorau gynnal rhith gyfarfodydd swyddogol, trwy i aelodau ffonio i ymuno mewn cyfarfodydd ffôn neu gymryd rhan trwy gyfarfod fideo.

Anfonwyd copi o'r llythyr i'r aelodau.

h. Llythyr (27/4/2020) oddi wrth Un Llais Cymru gyda rheoliadau newydd ar gyfer cynnal cyfarfodydd Fideo a Thelegyfarfodydd yn ystod argyfwng COVID 19.

Anfonwyd copi o'r llythyr i'r aelodau.

i. Llythyr (4/5/2020) oddi wrth Swyddog Cyfathrebu, Cyngor Gwynedd gyda gwybodaeth am y gwasanaeth mae Cyngor Gwynedd yn ei roi ynglŷn â Covid-19.

Anfonwyd copi o'r llythyr i'r aelodau.

j. Llythyr (11/5/2020) oddi wrth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, trwy law Un Llais Cymru. Mae'n cynwys gwybodaeth ar ddiweddariad dyddiol am y coronafeirws.

Anfonwyd copi o'r llythyr i'r aelodau.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION MEHEFIN 9, 2020

l. Llythyr (15/5/2020) oddi wrth Arweinydd Cyfathrebu, Cyngor Gwynedd yn cynnwys bwletin 'Gyda'n gilydd' yn rhoi gwybodaeth am y gwaith amrywiol sydd yn cael ei wneud gan nifer o asiantaethau Gwynedd yn ystod argyfwng Covid-19.

Anfonwyd copi o'r llythyr i'r aelodau.

ll. Llythyr (22/5/2020) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod mae cyfarfod Meirionnydd ar 10/6/2020 wedi ei ganslo oherwydd yr epidemig presennol.

m. Galwad ffôn (25/5/2020) oddi wrth Ivor Thompson yn gofyn os mae'n iawn torri'r llwybrau. Dwedwyd iddo gario ymlaen ac iddo fod yn ofalus.

11. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

a. Llythyr (22/3/2020) i'r aelodau oddi wrth Elfed ap Gomer angen y Cyngor ysgrifennu at gyrff perthnasol i ddatgan ein siom a'n pryder fod cymaint o ymwelwyr yn gweld y cyfnod hwn, a orfodwyd arnom gan Covid-19, fel cyfle i 'ddianc' i'r wlad, yn hytrach na chadw yn eu cartrefi fel y dylent. Mae'r gwahaniaeth rhwng llun o sgwâr mewn dinas yn yr Eidal ddoe, dyweder, a llun wedi'i dynnu ym Mharc Eryri ddoe yn arswydus o drawiadol a dweud y lleiaf.

Mae ein Haelod Seneddol, ynghyd â'n meddygon, yn taer apelio ar i bobl ymddwyn yn gyfrifol a pheidio â gorrwytho adnoddau cymunedau gwledig Gogledd Cymru. Gwn fod nifer yn pryderu yn y cwm yma fod cynifer yn mynd i fyny at Lwybr Llanelltyd, cymaint yn wir nes bod un cerbyd wedi mynd yn sownd yn y cae o dan y Foel ac angen ei achub, wedi iddo fethu â chael lle i barcio wrth y tŷ. Mae'r hunanoldeb hwn yn rhoi pobl ddiniwed mewn perygl diangen.

Cytunodd Peredur Jenkins (22/3/2020) cysylltu â Chadeirydd Cyngor Gwynedd ynglŷn â'r mater.

b. Llythyr (30/3/2020) oddi wrth Prif Weithredwr, Cyngor Gwynedd anfonwyd i Gynghorwyr Cyngor Gwynedd yn ateb materion codwyd ganddynt. Bydd ymdrech yn cael ei wneud i wahardd teithio di-angen ar lwybrau, bydd arweiniad yn cael ei roi gan y Llywodraeth ar gyfer gweithwyr gofal a gwastraff, mae anhawsterau trin pobl sy'n aros mewn tai gwyliau, a bydd plant ac oedolion yn parhau derbyn cefnogaeth briodol.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

c. Mae staff Cyngor Gwynedd yn gwneud gwaith rhagorol mewn amgylchiadau anodd oherwydd Covid-19.

ch. Roedd yr aelodau yn drist iawn gyda tân ddinistriodd gwesty hanesyddol Bontddu Hall.

12. Materion Brys

a. Cafwyd cyfarfod (27/5/2020) trwy ddefnyddio Zoom. Treial oedd hwn i weld os oedd Zoom yn gweithio ac yr oedd, a doedd dim trafferth cysylltu. Penderfynwyd cael cyfarfod ar yr ail ddydd Mawrth (fel yr arfer) am 7.30yh, Mehefin 9.

Dim ond Elfed ap Gomer a Geraint Rowlands oedd yn y cyfarfod.

b. Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd:

i. Mae angen tocio gordyfiant sy'n tyfu ar y wal rhwng yr Eglwys a'r gât y Fynwent, Llanelltyd.

ii. Mae angen archwilio'r wal rhwng Curfew a mynedfa i Bro Cymer, Llanelltyd oherwydd mae ei hwyneb yn dirywio gyda cherrig yn dod yn rhydd.

iii. Mae'r contractwr sy'n torri ochrau'r ffyrdd yn ddiotal weithiau ac yn malu'r graig yn ogystal â'r tyfiant yn Taicynhaeaf. Mae hyn yn gadael cerrig sylweddol ar ochr y ffordd ar ei ôl, allai fod yn beryg.

c. Penderfynwyd rhoi gwybod i G.W. Jones i docio gwrych y fynwent nid yn unig ochr y ffordd ond hefyd ochr y fynwent.

ch. Diolchwyd Peredur Jenkins am y syniad i gael ein cyfarfodydd trwy Zoom.
